| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | **Prif Gogydd / Goruchwyliwr Gegin** |
| **Lleoliad** | Galeri, Caernarfon |
| **Math o Swydd** | Llawn amser, 38 awr yr wythnos |
| **Cyflog** | £27,000 - £29,500 |
| **Yn Adrodd i** | Rheolwr Lletygarwch |
| **Yn Goruchwylio** | Staff y Gegin |

**Pwrpas y Swydd**

I gynorthwyo'r Rheolwr Lletygarwch i sicrhau fod y Gegin yn rhedeg yn esmwyth ac effeithiol. Goruchwylio a chydlynu'r adran a'i staff, trefnu'r archebion bwyd, goruchwylio darpariaeth y bwyd a'i goginio, archwilio cynnwys y platiau a tymheredd y bwyd cyn ei wasanaethu. Dylunio bwydlenni addas i amser y flwyddyn, digwyddiadau arbennig, bwydlen cyn sioeau, a bwffes. Cyfrannu at ddatblygiad y Gegin a'n horiau agor. Cyflawni dyletswyddau mewn dull effeithiol, cwrtais, proffesiynnol, a chyson. I fod yn ymwybodol a hyfforddi eraill am ofynnion Iechyd a Diogelwch Cegin weithredol.

**Prif Gyfrifoldebau**

Paratoi, coginio, a chyflwyno bwyd yn unol a'r archebion a dderbynir gan y staff gweini yn ogystal ac ar gyfer digwyddiadau neilltuol fel bwffes – hyn yn gyson, sydyn, ac effeithlon. Bod yn ymwybodol o gynhwysion i gyfarfod gofynnion dietegol. Gallu gweithio oddi ar eich menter eich hun heb oruchwyliaeth. Sicrhau bod cyflenwad cyson o nwyddau / cynhwysion ar gael ar gyfer pob shift. Darganfod beth sydd angen ei wneud ar gyfnodion distaw, heb anogaeth. Derbyn a llofnodi deliferis cynnyrch a sicrhau ansawdd. Bod yn ymwybodol o realoau cadw gwaith papur Cegin weithredol a cynnal a chadw nhw'n ddyddiol, yn bennodol agweddau o ddiogelwch bwyd. Sicrhau ymwybyddiaeth ar gychwyn pob shift o beth sydd ymlaen yn yr adeilad. Hysbysu

staff blaen ty o'r prydau arbennig sydd ar gael, ac o unrhyw gyfnodau disgwyl yn ystod gwasanaeth a cadw cyfathrebiad cyson efo nhw. Gwyliadwriaeth cyffredinol a rheolaidd o'r gegin. Sicrhau bod paratoadau / tasgau wedi ei cyflawni cyn darfod shift a bod yr adran yn barod am fusnes ar y diwrnod canlynol. I gynorthwyo gyda cyflenwi dros dro yn ystod digwyddiadau/gwyliau/salwch. I nodi ac adrodd unrhyw ddiffygion yn y gegin i'r Rheolwr Lletygarwch / Adran Adnoddau. Cadw at bolisiau a dull gweithredu'r Cwmni. Cyflwyno ei hun am ddyletswydd mewn cyflwr glan a hylan. I gynorthwyo'r Rheolwr Lletygarwch hefo unrhyw ddyletswyddau eraill o fewn rheswm.

**Cyfrifoldebau Glanhau a Hylendid**

- Rhaid i bob gweithred glanhau ac unrhyw weithred cysylltiedig gael ei weithredu mewn dull sydd yn sicrhau diogelwch staff ac eraill
- Sicrhau bod glendid a safon y gegin i gyd yn cael ei gynnal pob amser i gyfarfod anghenion Iechyd a Diogelwch/ Safonau Glendid Bwyd
- Gweithredu unrhyw waith glanhau sy'n dod i'r amlwg a glanhau wrth fynd ymlaen
- Sicrhau bod y weithfan bersonol yn daclus a glan pob amser

**Cynhaliaeth**

- Cynnal offer a cyflenwadau glanhau
- Adrodd unrhyw ddiffygion, difrod neu fandaliaeth
- Gofalu nad oes gwastraff boed o'n ynni, bwyd, stoc
- Cadw stordai, oergelloedd ayyb yn lan a thaclus

**Sgiliau Hanfodol**

- Sgiliau Gwasanaeth Cwsmer rhagorol
- Prydloneb
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm / ar ben ei hun heb gyfarwyddyd cyson

- Bod yn dawel a hunanfeddiannol ar amseroedd prysur
- Bod yn drefnus a blaenoriaethu tasgau
- Cymhwyster Glendid Bwyd Lefel 3
- Yn berson sydd eisiau datblygu'n barhaus
- Sydd âg agwedd 'gall wneud' cadarnhaol
- Dangos egni uchel
- Y gallu i ddarparu bwydlenni ac archebu cynhwysion priodol i arbed arian a chreu incwm proffidol

*Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddelfrydol.*

| | |
|---|---|
| **Amodau Gwaith** | Bod yn hyblyg o ran oriau gwaith oherwydd natur y busnes, gan gynnwys gwaith gyda'r nos a penwythnosau. Peidiwch ag oedi cysylltu i drafod ymhellach. |
| **Proses Ymgeisio** | Cyflwynwch Ffurflen Gais dros ebost i swyddi@galericaernarfon.com cyn 9am, bore dydd Llun y 28ain o Orffennaf. Mae croeso i chi ddod â copi caled i swyddfa Galeri. |
| **Gwybodaeth Gyswllt** | Am fanylion pellach, neu i drafod y swydd, cysylltwch â Rebeca Tomos, Rheolwr Lletygarwch<br>Rebeca.tomos@galericaernarfon.com |